

## Canllawiau ar Dystysgrifau Awdurdodi Cludwyr Anifeiliaid

---

Ers 5 Ionawr 2007, rhaid i unrhyw un sy'n cludo unrhyw anifeiliaid asgwrn cefn byw o fewn yr Undeb Ewropeaidd, a rhwng Aelod-wladwriaethau a thrydydd gwledydd ar deithiau sy'n hwy na 65 cilometr (tua 40 milltir) fel rhan o weithgarwch economaidd feddu ar dystysgrif Awdurdodi ddilys i wneud hynny. Mae hwn yn un o ofynion Rheoliad y Cyngor Rhif (CE) 1/2005 ar ddiogelu anifeiliaid wrth iddynt gael eu cludo a gweithrediadau cysylltiedig (y cyfeirir ato fel 'y Rheoliad' o hyn ymlaen) a ddaeth i rym ar y dyddiad hwnnw, ac sy'n gymwys ledled yr Undeb Ewropeaidd. Ceir copi o'r Rheoliad wrth ddilyn y ddolen hon: <http://faolex.fao.org/docs/pdf/eur69655.pdf>.

Nid yw'r holl Dystysgrifau Awdurdodi blaenorol a roddwyd o dan Orchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) 1997 yn ddilys mwyach.

Mae dau fath o Dystysgrif Awdurdodi ar gael:

- Tystysgrif Awdurdodi **taith fer** (Math 1) ar gyfer teithiau dros 65km ac sy'n para hyd at a chan gynnwys wyth awr
- Tystysgrif Awdurdodi **taith hir** (Math 2) ar gyfer pob taith dros 65km gan gynnwys y rhai sy'n para am fwy nag wyth awr.

Rhaid i unrhyw un sy'n meddu ar dystysgrif awdurdodi sicrhau, wrth gludo anifeiliaid byw, fod copi o'r dystysgrif awdurdodi ar gael i'w harchwilio, os bydd angen, gan yr awdurdod cymwys.

- Cyhoeddir Tystysgrifau Awdurdodi gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA)
- Mae tystysgrifau awdurdodi yn ddilys am bum mlynedd oni chânt eu dirymu neu eu hatal
- Pennir amodau ar gyfer tystysgrifau awdurdodi.

Mae'r canllawiau canlynol yn esbonio pwy sydd angen Tystysgrif Awdurdodi, pa amodau y mae'n rhaid iddynt eu bodloni, a sut i wneud cais. Dylai unrhyw un sy'n cwblhau'r cais ddarllen y nodiadau ar y ffurflen. Maent yn esbonio pa wybodaeth sydd ei hangen ym mhob adran.

Gallwch gael rhagor o ganllawiau, gan gynnwys canllawiau y cyfeirir atynt yn ddiweddarach yn y ddogfen hon, ar wefan GOV.UK yn:

<https://www.gov.uk/guidance/animal-welfare#animal-welfare-during-transport>

### 1. Ar bwy y mae angen Tystysgrif Awdurdodi?

Bydd angen Tystysgrif Awdurdodi ar y sawl sy'n cludo anifeiliaid asgwrn cefn byw fel rhan o 'weithgarwch economaidd' am bellterau dros 65km. Nid yw'r Rheoliad yn diffinio 'gweithgarwch economaidd' ond mae Defra o'r farn fod cludo mewn cysylltiad â gweithgarwch economaidd yn cynnwys:

*Cludo unrhyw anifeiliaid fel rhan o weithgarwch busnes neu fasnachol, â'r nod o sicrhau budd ariannol, boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, i unrhyw berson neu gwmni sy'n ymwneud â'r cludiant'.*

Byddai cludiant o'r fath yn debygol o gynnwys teithiau gan:

- gludwyr masnachol
- ffermwyr
- anifeiliaid anwes lle mae'r symudiadau'n gysylltiedig â gweithgarwch economaidd (h.y. busnes) e.e. bridwyr anifeiliaid anwes masnachol, rasio cŵn, y sawl sy'n cymryd rhan mewn gwaith ffilmio e.e. hysbysebion er budd ariannol
- marchogion/jocis 'proffesiynol', gan gynnwys y rhai a gaiff eu noddi i gystadlu
- lle caiff anifeiliaid eu cludo i'w gwerthu fel rhan o fusnes
- sŵau a pharciau hamdden
- anifeiliaid labordy (ond nid yw'r darpariaethau yn iach i deithio yn gymwys pan fydd yr anifeiliaid yn cymryd rhan mewn prosiect ymchwil a awdurdodwyd) ym mhob amgylchiad.

## 2. Pwy nad oes angen Tystysgrif Awdurdodi arnynt?

Ni fydd angen Tystysgrif Awdurdodi arnoch i gludo anifeiliaid os nad yw'r daith yn gysylltiedig â 'gweithgarwch economaidd'. Nid oes angen tystysgrif awdurdodi ychwaith ar deithiau o'r natur ganlynol:

- nad ydynt yn ymwneud â busnes neu fasnach
- nad ydynt at ddibenion hurio neu am dâl
- yn cynnwys un anifail sy'n teithio gyda pherson sy'n gyfrifol am les yr anifail (neu ddau anifail sy'n teithio gyda dau berson hyd at uchafswm o 4 anifail sy'n teithio gyda 4 person)
- lle mae anifeiliaid anwes yn teithio gyda'u perchennog ar daith breifat
- lle caiff anifeiliaid anwes eu cludo o sioe neu gystadleuaeth arbenigol a phleser yw'r prif nod yn hytrach na bod yn fusnes
- lle caiff ceffylau a merlod eu cludo gan berchennog at ddibenion marchogaeth, arddangos neu gystadlu ar gyfer pleser e.e. neidio ceffylau, merlogampau ac ati. Fodd bynnag, byddai marchogion proffesiynol yn cael eu cynnwys yn y rheoliad a byddai angen Tystysgrif Awdurdodi ar gludwr a oedd yn derbyn tâl am gludo anifeiliaid o'r fath i sioeau ac ati
- lle mae unigolion sy'n mynd i sioeau neu gystadlaethau er pleser yn bennaf yn rhannu'r baich o gludo e.e. costau petrol, ond lle nad yw'r unigolyn sy'n cludo yn gwneud elw
- a gynhelir gan y lluoedd arfog neu wasanaethau cyhoeddus wrth gyflawni eu dyletswyddau swyddogol
- yn cynnwys cludo anifeiliaid syrcas lle y gellir ystyried y cerbyd cludo yn gartref yr anifail.

## 3. Tystysgrif Awdurdodi Taith Fer neu Daith Hir?

Ceir dau fath o Dystysgrif Awdurdodi:

- Tystysgrif Awdurdodi **taith fer** (Math 1) ar gyfer teithiau dros 65km ac sy'n para hyd at a chan gynnwys wyth awr
- Tystysgrif Awdurdodi **taith hir** (Math 2) ar gyfer pob taith dros 65km ac sy'n para am fwy nag 8 awr. Mae tystysgrifau awdurdodi Math 2 hefyd yn cwmpasu cludwyr a all fynd ar deithiau byr ychwanegol. Felly, dim ond gwneud cais am un dystysgrif awdurdodi y bydd yn rhaid i gludwyr ei wneud. Bydd angen bodloni amodau ychwanegol os byddwch yn gwneud cais am Dystysgrif Awdurdodi taith hir. Gweler adran 6 am fanylion.

Diffinnir taith o'r adeg y rhoddir yr anifail **cyntaf** ar y cerbyd cludo yn y man gadael hyd nes y dadlwythir yr anifail **olaf** ar ben arall y daith (ar wahân i ddofednod lle mae amseroedd teithio yn diystyru amseroedd llwytho a dadlwytho). Diffinnir y pellter o 65km fel y pellter a deithir o reidrwydd, nid fel yr hed y frân.

## 4. Amodau sy'n gymwys i bob Tystysgrif Awdurdodi:

Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer Tystysgrif Awdurdodi rhaid i chi fodloni'r meini prawf canlynol:

- rhaid i chi fod wedi eich sefydlu ym Mhrydain Fawr (dylai cludwyr yng Ngogledd Iwerddon wneud cais i'r Adran Amaeth a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon). Disgwylir i gludwyr mewn Aelod Wladwriaethau eraill yr UE wneud cais i'w priod Aelod Wladwriaeth. Gall cludwyr o'r tu allan i'r UE wneud cais am Dystysgrif Awdurdodi os ydynt wedi'u cynrychioli ym Mhrydain
- dim ond un dystysgrif Awdurdodi y gallwch feddu arni (mae Tystysgrif Awdurdodi yn ddilys ledled yr Undeb Ewropeaidd felly dim ond Tystysgrif Awdurdodi gan un Aelod Wladwriaeth y gallwch feddu arni)
- gallwch ddangos bod gennych chi a'ch staff (os ydych yn cyflogi eraill) yr offer a'r gweithdrefnau priodol ar waith i gludo anifeiliaid yn unol â'r Rheoliad
- os ydych yn gweithredu fel y cludwr, rhaid eich bod wedi derbyn hyfforddiant a'ch bod yn gymwys i gludo anifeiliaid. Os ydych yn cyflogi staff i symud anifeiliaid, rhaid eu bod wedi derbyn hyfforddiant a'u bod yn gymwys i gludo anifeiliaid
- nid oes gennych chi, nac unrhyw un sy'n debygol o fod yn gysylltiedig â chludo anifeiliaid o dan y Dystysgrif Awdurdodi, unrhyw hanes o gael eich dyfarnu'n euog am droseddau lles anifeiliaid difrifol neu Rybuddion Syml y Swyddfa Gartref yn y tair blynedd cyn dyddiad eich cais, oni allwch ddangos eich bod wedi cymryd pob cam angenrheidiol i achosion pellach o dorri'r gyfraith (gweler y canllawiau ar gwblhau'r ffurflen gais am ragor o fanylion - maent yn rhan o'r ffurflenni cais).

## 5. Amodau ychwanegol ar gyfer Tystysgrif Awdurdodi taith fer a thaith hir

### Tystysgrifau Cymhwysedd

Mae'n ofynnol i gludwyr a chynorthwyr sy'n defnyddio cerbydau ffordd i gludo **gwartheg, defaid, moch, geifr, ceffylau a dofednod** ar deithiau dros 65km mewn cysylltiad â gweithgarwch economaidd gael asesiad a meddu ar Dystysgrif Cymhwysedd a gyhoeddwyd gan gorff annibynnol a enwebwyd gan yr awdurdod cymwys.

Dylai cludwyr gario tystysgrifau cymhwysedd gyda hwy ar bob taith ar gyfer pob un o'r rhywogaethau hyn.

Fel yr awdurdod cymwys yn Lloegr, rydym wedi dynodi'r cyrff annibynnol canlynol i gynnal asesiad o gymhwysedd.

#### **NPTC, Part of the City & Guilds Group**

Building 500  
Abbey Park  
Stareton,  
Warwickshire, CV8 2LY

Ffôn: 0247 685 7300  
E-bost: [information@cityandguilds.com](mailto:information@cityandguilds.com)  
Gwefan: [www.nptc.org.uk](http://www.nptc.org.uk)

#### **Lantra Awards**

Lantra House  
Stoneleigh Park  
Warwickshire  
CV8 2LG

Ffôn: 02476 69 69 96  
Ffacs: 024 7641 1655  
E-bost: [LantraAwards@lantra.co.uk](mailto:LantraAwards@lantra.co.uk)  
Gwefan: [www.lantra.co.uk](http://www.lantra.co.uk)

#### **British Driving Society**

Endersley  
Church Road  
Wingfield  
Eye  
Suffolk  
IP21 5QZ

Ffôn: 01379 384612  
Ffacs: 01379 384206  
E-bost: [email@britishdrivingsociety.co.uk](mailto:email@britishdrivingsociety.co.uk)  
Gwefan: [www.britishdrivingsociety.co.uk](http://www.britishdrivingsociety.co.uk)

#### **1<sup>st</sup>4Sport**

Coachwise Ltd  
Chelsea Close  
Off Amberley Road  
Armley  
Leeds  
LS12 4HP

Ffôn: 01132 907610  
E-bost: [enquiries@1st4sportqualifications.com](mailto:enquiries@1st4sportqualifications.com)

Dynodir **NPTC** a **Dyfarniadau Lantra** i asesu cymhwysedd i gludo gwartheg, defaid, moch, geifr, ceffylau, adar hela a dofednod. Dynodir **BDS** a **1<sup>st</sup>4Sport** i asesu cymhwysedd i gludo ceffylau yn unig.

Mae Llywodraeth yr Alban hefyd wedi dynodi **NPTC** i gynnal asesiadau cymhwysedd ar gyfer cludo gwartheg, defaid, moch, ceffylau, adar hela a dofednod.

Mae dynodiadau awdurdodau cymwys yn galluogi'r cyrff perthnasol i weithredu ledled y DU. Cysylltwch â'r cyrff hyn yn uniongyrchol am ragor o fanylion am dystysgrifau cymhwysedd.

Wrth wneud cais am Dystysgrif Awdurdodi Cludwyr Math 2, rhaid cyflwyno copi o'ch tystysgrif cymhwysedd gyda'ch cais. Darperir enghraifft o'r dystysgrif yn Atodiad A ar gefn y canllawiau hyn.

## **6. Amodau ychwanegol ar gyfer Tystysgrif Awdurdodi taith hir**

Mae'n ofynnol i gludwyr sydd am wneud cais am dystysgrif awdurdodi taith hir gyflwyno gwybodaeth ychwanegol i ategu eu cais;

### **i) Cymeradwyo Cerbyd**

Rhaid i gludwyr y mae'n ofynnol iddynt yn ôl y ddeddfwriaeth sicrhau bod eu cerbydau'n cael eu harchwilio a'u cymeradwyo, o dan Erthygl 7 o'r Rheoliad, gyflwyno copïau (peidiwch â chyflwyno dogfennau gwreiddiol) o bob tystysgrif cymeradwyo cerbydau ar gyfer cerbydau a ddefnyddir i gludo anifeiliaid ar deithiau hir. Darperir enghraifft o'r dystysgrif yn Atodiad A ar gefn y canllawiau hyn. Mae'n ofynnol i'r categorïau canlynol o gerbydau gael eu harchwilio a'u cymeradwyo:

- pob cerbyd a ddefnyddir i gludo **gwartheg, defaid, moch, geifr** neu **geffylau** ar y ffordd ar deithiau sy'n para am fwy nag wyth awr
- pob cerbyd a ddefnyddir i gludo **rhywogaethau eraill** ar y ffordd ar deithiau sy'n para am fwy na 12 awr

- rhaid i bob cerbyd a ddefnyddir i gludo rhywogaethau eraill ar deithiau sy'n para am fwy nag wyth awr ond llai na 12 awr, y tu allan i'r DU gael ei archwilio a'i gymeradwyo, ond dim ond os bydd unrhyw un o aelod-wladwriaethau'r UE y teithir drwyddi neu iddi, yn mynnu hynny.

Nid oes angen Tystysgrifau Cymeradwyo Cerbydau ar ymgeiswyr sy'n cludo **rhywogaethau eraill**, lle mae eu teithiau yn cychwyn ac yn gorffen yn y DU (heb deithio drwy unrhyw Aelod-wladwriaethau eraill) ac sy'n para am lai na 12 awr.

Rhaid i gludwyr sy'n mynd ar deithiau hir i Aelod-wladwriaethau eraill, sicrhau bod copi o'u Tystysgrif Cymeradwyo Cerbydau ar gael i'w archwilio gan yr Awdurdod Cymwys.

Fel yr awdurdod cymwys yn Lloegr, mae Defra wedi dynodi'r cyrff ardystio canlynol i gynnal archwiliadau ar gerbydau a darparu tystysgrifau yn unol â'r cynllun:

**SAI Global UK Assurance Services Limited**

P O Box 6236  
Milton Keynes  
MK1 9ES

Ffôn: 01908 249 973  
E-bost: [agrifood@saiglobal.com](mailto:agrifood@saiglobal.com)

**NSF Certification UK Ltd**

Hanborough Business Park  
Long Hanborough  
Oxford  
OX29 8SG

Ffôn: 01993 885610  
E-bost: [certificationuk@nsf.org](mailto:certificationuk@nsf.org)

**Freight Transport Association**

Hermes House  
St John's Road  
Tunbridge Wells  
Kent  
TN4 9UZ

Rhif: 01892 552235  
E-bost: [twells.admin@fta.co.uk](mailto:twells.admin@fta.co.uk)

**Hall Mark Meat Hygiene Ltd**

3rd Floor, The Mill, Upper Mills Estate  
Bristol Road  
Stonehouse  
GL10 2BJ

Ffôn: 01453 885600  
E-bost: [info@hallmarkvcs.com](mailto:info@hallmarkvcs.com)

**Acoura**

6 Redheughs Rigg  
Edinburgh  
City of Edinburgh  
Scotland  
EH12 9DQ

Ffôn: 0330 024 0255 / 0131335 6600  
E-bost: [info@acoura.com](mailto:info@acoura.com)

Cysylltwch â'r cyrff ardystio yn uniongyrchol am wybodaeth am sut i gael tystysgrif cymeradwyo i'ch cerbyd/cerbydau.

Mae canllawiau manwl ar dystysgrifau cymeradwyo cerbydau ar gael yn:

[https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/69472/vehicle-approval-scheme1103.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/69472/vehicle-approval-scheme1103.pdf)

**ii) Cynlluniau Wrth Gefn**

Yn ogystal, rhaid bod gan ddeiliaid tystysgrifau awdurdodi taith hir (Math 2) gynlluniau wrth gefn ar waith i ymdrin ag unrhyw argyfyngau neu amgylchiadau na ellir eu rhagweld a all godi yn ystod taith, megis anifeiliaid yn mynd yn sâl neu'n cael anaf, oedi annisgwyl, y cerbyd yn torri i lawr neu ddamweiniau. Mae'r Rheoliad yn ei gwneud yn ofynnol i gludwyr nodi eu cynlluniau wrth gefn rhag ofn y bydd argyfwng yn codi.

Rhaid i Gynllun Wrth Gefn (WIT27) gael ei gwblhau a'i gyflwyno fel dogfennaeth ategol gydag unrhyw gais am dystysgrif awdurdodi cludwyr Math 2.

Mae rhagor o wybodaeth am Gynlluniau Wrth Gefn ar gael yn:

<https://www.gov.uk/guidance/animal-welfare#animal-welfare-during-transport>

Gall arolygwyr ofyn am gael gweld cynlluniau wrth gefn cyn neu ystod taith. Dylai rhywun gyflwyno cynlluniau pan ofynnir am hynny.

## ii) Orlhain cerbydau yn ystod teithiau

Rhaid i ymgeiswyr ar gyfer Tystysgrifau Awdurdodi taith hir (Math 2) ddarparu manylion am y gweithdrefnau sydd ganddynt ar waith i'w galluogi i olrhain a chofnodi taith eu cerbydau a'u galluogi i gysylltu â'u gyrrwyr ar unrhyw adeg yn ystod taith hir. Fel safon ofynnol, disgwylir y gellir cysylltu â'r gyrrwr ar unrhyw adeg drwy gyfrwng ffôn symudol a, lle mae'n ofynnol o dan reoliadau trafndiaeth, fod tacograff sy'n gweithio'n gywir yn y cerbyd.

Mae'n ofynnol i gludwyr ddangos bod cerbydau a ddefnyddir i gludo da byw a cheffylau nas cofrestrwyd sy'n teithio **am fwy na 12 awr neu y tu allan i'r DU** yn cynnwys system olrhain sy'n cofnodi:

- manylion teithiau fel y'u nodwyd yng Nghofnodlyfrau'r Teithiau
- gwybodaeth sy'n ymwneud ag agor a chau'r fflap llwytho.

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr gadarnhau eu bod yn bodloni'r safonau gofynnol yn yr adran ddatganiad o'r ffurflen gais.

Mae canllawiau manwl ar ofynion System Dywys ar gael yn:

[https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/69384/pb13551-satellite-tracking.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/69384/pb13551-satellite-tracking.pdf)

## 7. Llongau

Dylai pob gweithredwr llongau sy'n cludo anifeiliaid asgwrn cefn byw wneud cais am Dystysgrif Awdurdodi taith hir (Math 2) oherwydd gallant gludo anifeiliaid ar deithiau a all bara am fwy nag 8 awr (yn cynnwys y fordaith). Dylai gweithredwyr llongau da byw (lle y cedwir anifeiliaid mewn llociau â gwellt, bwyd a dŵr) hefyd sicrhau y caiff eu llongau eu harchwilio a'u cymeradwyo gan Gymdeithas Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd (APHA).

Nid oes angen cymeradwyo nac ardystio llongau RO-RO. Fodd bynnag, rhaid iddynt fodloni'r darpariaethau statudol fel y'u nodir yn y Rheoliad o hyd a gallant gael eu harchwilio er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio.

Cysylltwch â'r Tîm Lles wrth Gludo yn APHA am ragor o wybodaeth.

## 8. Awyrennau

Dylai gweithredwyr awyrennau wneud cais am Dystysgrif Awdurdodi taith hir (Math 2) oherwydd gallant gludo anifeiliaid ar deithiau a all bara am fwy nag 8 awr (yn cynnwys y daith awyr). Nid oes angen cymeradwyo nac ardystio awyrennau.

Cysylltwch â'r Tîm Lles wrth Gludo yn APHA am ragor o wybodaeth.

## 9. Cwmpas y Tystysgrifau Awdurdodi

Gan fod cludwyr yn tueddu i weithredu un math o gludiant yn unig, gofynnir i ymgeiswyr nodi'r math o gludiant y maent yn dymuno derbyn Tystysgrif awdurdodi ar ei gyfer (e.e. ar y ffordd, dros y môr neu drwy'r awyr). Gall cludwyr wneud cais i gael eu hawdurdodi am fwy nag un math o gludiant os dymunant. Gall cludwyr sy'n dymuno gwneud cais am ddulliau lluosog o deithio neu am deithiau heblaw mewn cerbyd ffordd gwblhau'r ffurflen gais briodol:

- ar gyfer Tystysgrif Awdurdodi **taith fer** (Math 1) ar gyfer teithiau dros 65km ac sy'n para hyd at a chan gynnwys wyth awr ar gyfer defnyddio cludiant dros y Môr, drwy'r Awyr ac ar y Rheilffyrdd WIT37
- ar gyfer Tystysgrif Awdurdodi **taith hir** (Math 2) ar gyfer pob taith dros 65km gan gynnwys y rhai sy'n para am fwy nag wyth awr ar gyfer defnyddio cludiant dros y Môr, drwy'r Awyr ac ar y Rheilffyrdd WIT38.

Nid yw'n ofynnol i gludwyr ar y ffordd sy'n allforio ar long wneud cais am Dystysgrif Awdurdodi "môr" ar wahân. Cyfrifoldeb gweithredwr y llong yw hynny.

## 10. Sut i wneud cais

Mae ffurflenni cais ar gyfer Tystysgrifau Awdurdodi taith fer (Math 1) a thaith hir (Math 2) ar gael ar-lein o:

<https://www.gov.uk/guidance/animal-welfare#animal-welfare-during-transport>

Fe'ch anogir i ddychwelyd eich ffurflen gais wedi'i chwblhau drwy e-bost i [wit@apha.gsi.gov.uk](mailto:wit@apha.gsi.gov.uk). Rhaid i'ch ffurflen gais gael ei llofnodi a'i sganio i'w dychwelyd atom.

Os na allwch ddychwelyd eich ffurflen gais yn electronig, gallwch ei phostio neu ei ffacio i:

Welfare in Transport Team

APHA

Centre for International Trade - Carlisle

Eden Bridge House

Lowther Street

Carlisle

CA3 8DX

Ffôn: 03000 200 301

Ffacs: 0208 02 60498

E-bost: [wit@apha.gsi.gov.uk](mailto:wit@apha.gsi.gov.uk)

## Gwybodaeth Ychwanegol os ydych yn gwneud cais am Dystysgrif Awdurdodi Math 2

Noder na chaiff ffurflenni cais **Math 2** eu prosesu oni fydd y wybodaeth ategol ganlynol yn cael ei darparu gyda hwy, fel sy'n ofynnol o dan Erthygl 11 o'r Rheoliad:

- Tystysgrif Cymhwysedd Ddilys/Tystysgrifau Cymhwysedd Dilys
- Tystysgrif Cymeradwyo Cerbydau Ddilys/Tystysgrifau Cymeradwyo Cerbydau Dilys
- Cynllun Wrth Gefn Boddhaol (WIT27).

## 11. Faint o amser y bydd yn ei gymryd i APHA brosesu fy nghais?

Rhoddir Tystysgrif Awdurdodi Cludwyr newydd yn awtomatig i gludwyr sy'n meddu ar Dystysgrif Awdurdodi Cludwyr Math 1 ar hyn o bryd, nad oes ganddynt unrhyw gofnod o droseddau lles<sup>1</sup>. Fodd bynnag, bydd yn ofynnol iddynt gwblhau, llofnodi a dychwelyd datganiad sy'n cadarnhau eu bod yn bodloni'r gofynion a nodir yn y Rheoliad. Gall methu â bodloni'r gofynion angenrheidiol neu fethu â dychwelyd datganiad wedi'i gwblhau'n llwyr arwain at ddirymu'r dystysgrif awdurdodi.

Os cewch Dystysgrif Awdurdodi Cludwyr Math 1 newydd ond nad oes ei hangen arnoch mwyach, rhaid i'r dystysgrif awdurdodi gael ei dychwelyd i'r cyfeiriad isod, a chaiff eich cofnod ei ddiweddarau i adlewyrchu'r newid hwn.

Gall cludwyr y'u dyfarnwyd yn euog o droseddau o dan ddeddfwriaeth lles fod yn gymwys i gael tystysgrif awdurdodi o hyd. Fodd bynnag, bydd yn rhaid iddynt gyflwyno cais llawn. Rhaid i'r cais hwn gael ei ategu gan fanylion y mesurau a gymerwyd i osgoi achos pellach o dorri'r gyfraith. Ar yr amod bod yr Awdurdod Cymwys yn fodlon y bydd y mesurau hyn yn galluogi'r cludwr i osgoi achos pellach o dorri'r gyfraith, gall tystysgrif awdurdod gael ei rhoi.

Rhaid i ymgeiswyr newydd ar gyfer Tystysgrifau Awdurdodi Cludwyr Math 1 hefyd gyflwyno cais llawn.

Rhaid i bob cludwr sydd angen Tystysgrif Awdurdodi Cludwyr Math 2 gyflwyno cais llawn.

Oherwydd nifer y ceisiadau y mae disgwyl iddynt gael eu hadnewyddu, gall gymryd hyd at bedair wythnos i'ch cais gael ei brosesu. Dylai cludwyr gyflwyno eu ceisiadau mewn da bryd er mwyn sicrhau bod ganddynt dystysgrif awdurdodi ddilys ar gyfer pob taith lle mae un yn ofynnol.

Ar ôl prosesu eich cais, cewch Dystysgrif Awdurdodi ynghyd â llythyr yn crynhoi'r gofynion allweddol.

## 12. Beth os bydd fy amgylchiadau yn newid?

Os bydd y wybodaeth a roddwch yn eich cais yn newid, mae'n ofynnol i chi ysgrifennu i'r cyfeiriad canlynol: Welfare in Transport Team, APHA, Centre for International Trade - Carlisle, Eden Bridge House, Lowther Street, Carlisle, CA3 8DX neu e-bostio [wit@apha.gsi.gov.uk](mailto:wit@apha.gsi.gov.uk) o fewn 15 diwrnod gwaith i'r dyddiad newid.

## 13. A godir tâl am Dystysgrif Awdurdodi?

Ar adeg cyhoeddi'r canllawiau hyn, ni chodir tâl am brosesu na rhoi tystysgrifau awdurdodi. Fodd bynnag, mae'n debygol y codir tâl ar ryw adeg yn y dyfodol agos.

Fodd bynnag, bydd y cyrff annibynnol sy'n ymgymryd â'r tystysgrifau cymhwysedd a'r cyrff cymeradwyo cerbydau dynodedig yn codi ffi. Cynghorir ymgeiswyr i gysylltu â'r cyrff hyn yn uniongyrchol er mwyn deall y costau dan sylw.

Mae gwybodaeth am y cyhoeddiad hwn a rhagor o gopiâu ar gael o:

Welfare in Transport Team

APHA

Centre for International Trade - Carlisle

Eden Bridge House

Lowther Street

Carlisle

CA3 8DX

Ffôn: 03000 200 301

E-bost: [wit@apha.gsi.gov.uk](mailto:wit@apha.gsi.gov.uk)


Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd ar wefan GOV.UK yn:

<https://www.gov.uk/guidance/animal-welfare#animal-welfare-during-transport>

# Atodiad A

## CHAPTER III

### Certificate of competence for drivers and attendants pursuant to Article 17(2)

<b>1. DRIVER/ATTENDANT <sup>(1)</sup> IDENTIFICATION</b>		
1.1. Surname		
1.2. First names		
1.3. Date of birth	1.4. Place and country of birth	1.5. Nationality
<b>2. CERTIFICATE NUMBER</b>		
2.1. This authorisation is valid until		
<b>3. BODY ISSUING THE CERTIFICATE</b>		
3.1. Name and address of the body issuing the certificate		
3.2. Telephone	3.3. Fax	3.4. Email
3.5. Date	3.6. Place	3.7. Stamp
3.8. Name and signature		

<sup>(1)</sup> Delete as appropriate



# ATODIAD B

5.1.2005


EN

Official Journal of the European Union

L 3/41

## CHAPTER IV

Certificate of approval of means of transport by road for long journeys pursuant to Article 18(2)

1. LICENCE NUMBER		
1.2. Equipped with Navigation System:		YES NO
2. Types of animals allowed to be transported		
3. AREA IN M <sup>2</sup> /DECK		
4. This authorisation is valid until		
5. BODY ISSUING THE CERTIFICATE		
5.1. Name and address of the body issuing the certificate		
5.2. Telephone	5.3. Fax	5.4. Email
5.5. Date	5.6. Place	5.7. Stamp
5.8. Name and signature		

Mae APHA yn un o Asiantaethau Gweithredol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ac mae hefyd yn gweithio ar ran Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a'r Asiantaeth Safonau Bwyd i ddiogelu iechyd anifeiliaid a phlanhigion er budd pobl, yr amgylchedd a'r economi.

- 
- <sup>i</sup> Erthyglau 4 neu 6 o Orchymyn Lles Anifeiliaid (cludo) 1997
  - Erthyglau 4 neu 6(c) o Orchymyn Lles Anifeiliaid (cludo) (Lloegr) 2006; Erthyglau 4 neu 6 o Orchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007; Erthygl 4(c) o Reoliadau Lles Anifeiliaid (Cludo) (Yr Alban) 2006
  - Erthyglau 5, 6, 7 ac 8 o Orchymyn Lles Anifeiliaid mewn Marchnadoedd 1990
  - Deddf Amaethyddiaeth (Darpariaethau Amrywiol) 1968
  - Deddf Diogelu Anifeiliaid 1911 (fel y'i diwygiwyd); Deddf Diogelu Anifeiliaid (Yr Alban) 1912
  - Deddf Lles Anifeiliaid 2006; Deddf Iechyd a Lles Anifeiliaid (Yr Alban) 2006